

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 23 Ionawr 2019

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 29 IONAWR 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

5 COFNODION (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2018 (copi ynghlwm).

6 CYMERADWYO CYLLIDEB Y CYNGOR 2019/20 (CYNIGION TERFYNOL)
(Tudalennau 19 - 38)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cyllid (copi ynghlwm) i ddarparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2019/20, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

7 CYNLLUN LLEIHOU TRETH Y CYNGOR 2019/20 (Tudalennau 39 - 70)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth a'r Prif Gyfrifydd (copi ynghlwm) i fabwysiadu'r Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru gyfan a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a'r Rheoliadau Diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2018, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2019/20.

8 PAPUR GWYN LYWODRAETH CYMRU - DIWYGIO AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU (Tudalennau 71 - 102)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (copi ynghlwm) sydd yn ceisio sylwadau'r Aelodau ar y Papur Gwyn – Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

9 RHYBUDD O GYNNIG

Rhybudd o Gynnig a gyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

“Mae'r Cyngor hwn yn nodi â phryder y cofnod ar Gofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r canlynol:

- Mae Fforwm Gofal Cymru yn pryderu fod y maes gofal 'ar drothwy argyfwng', ac yn rhybuddio y gallai effeithiau hirdymor ymadael a'r Undeb Ewropeaidd greu prinder staff aruthrol;
- Cyfanswm gwerth yr allforion o Sir Ddinbych a Chonwy yn 2016 oedd £188 miliwn, ac aeth £102 miliwn o hynny - 55% - i'r Undeb Ewropeaidd.
Cyfanswm gwerth yr allforion o Sir y Fflint a Wrecsam oedd £5,051, ac aeth £4,382 o hynny – 87% – i'r Undeb Ewropeaidd;

- Mae Cymru'n fuddiolwr net yn yr Undeb Ewropeaidd, gan dderbyn oddeutu £245 miliwn yn fwy gan yr Undeb Ewropeaidd na'r hyn a dalwn i mewn;
- Yn gynharach y mis hwn dywedodd Ysgrifennydd Llywodraeth y Deyrnas Undedig dros yr Amgylchedd, Michael Gove AS, y byddai ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb fargen yn peri "anhrefn".
- Bod pob rhagolwg economaidd credadwy'n dangos y bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, boed hynny drwy fargen Theresa May neu ddim bargaen o gwbl, yn niweidio economi'r Deyrnas Unedig;

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod 13.5% o'r holl unedau busnes lleol yn Sir Ddinbych, yn ôl yr wybodaeth ar 10 Mawrth 2018, yn perthyn i'r diwydiant 'Amaeth, Coedwigaeth a Physgod'. Hwn oedd y dosbarth mwyaf ei faint o ran busnes a diwydiant.

Mae'r Cyngor yn pryderu ynghylch:

- effaith bosib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y sectorau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Ddinbych;
- effaith bosib ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar economi leol Sir Ddinbych.

Gan ystyried yr wybodaeth sydd newydd ddod i'r amlwg a manylion hysbys y fargen a gynigir, mae'r Cyngor yn galw ar Senedd y Deyrnas Unedig i roi'r dewisiadau sydd bellach ar gael, gan gynnwys y dewis i aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, gerbron y cyhoedd mewn Pleidlais i'r Bobl."

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 103 - 106)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Peter Scott (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
 Brian Blakeley
 Joan Butterfield
 Jeanette Chamberlain-Jones
 Ellie Chard
 Ann Davies

Christine Marston
 Barry Mellor
 Melvyn Mile
 Bob Murray
 Merfyn Parry
 Paul Penlington

Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Hugh Irving
Alan James
Brian Jones
Huw Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon

Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch
Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Eitem Agenda 4

Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
04/12/18	Dathliad y Nadolig – Gwasanaeth Carolau Sir Ddinbych A Christmas Celebration – Denbighshire Carol Serice	Llanelwy / St. Asaph
06/12/18	Ymweliad Ysgol i Neuadd y Sir School Visit to County Hall (Is-Gadeirydd wedi mynychu/Vice-Chair attended)	Rhuthun / Ruthin
12/12/18	Ymweld â Swyddfa Ddidoli'r Post Brenhinol Visit to the Royal Mail Sorting Office	Y Rhyl / Rhyl
14/12/18	Dathliad Elusennol Penblwydd Maer Dinbych yn 50 oed Mayor of Denbigh's 50th Birthday Charity Celebration	Dinbych / Denbigh
17/01/19	Seremoni Ddinasyddiaeth Citizenship Ceremony	Rhuthun / Ruthin

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Is-Gadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott (Cadeirydd), Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS) (dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr), Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democraidd (GW), Pennaeth Cyllid (RW), Rheolwr Gwasanaethau Democraidd (SP), Swyddog Gwasanaethau Etholiadol (GE), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Hefyd yn bresennol:

Samuel West, Gweithredwr a Chadeirydd Ymgyrch Cenedlaethol y Celfyddydau
Sian Fitzgerald, Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield, Barry Mellor, Eryl Williams a'r Prif Weithredwr, Judith Greehalgh

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Christine Marston gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag Eitem 6 – Premiwm Treth y Cyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi, gan ei bod yn berchen ar ail gartref.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau bryd.

Ar y pwynt hwn, dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai tri chwestiwn yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn:

- (i) Cododd y Cyngorydd Glenn Swingler y cwestiwn canlynol:

“Fyddai modd i’r Aelod Arweiniol roi diweddariad i’r Cyngor ar y gwaith arfaethedig o adeiladu 7 tŷ a 4 fflat fel tai cymdeithasol ar safle fflatiau Pennant, Stryd Henllan, Dinbych Uchaf, gan egluro pam ei bod yn ymddangos fod yna oedi pellach?”

Ymatebodd y Cyngorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a’r Amgylchedd fel a ganlyn:

“Cynhaliwyd ymweliadau safle oedd yn cynnwys yr Aelod Arweiniol, swyddogion a Rheolwr y Rhaglen, Datblygiad Tai. Rhoddodd Rheolwr y Rhaglen ddiweddariad i’r Aelodau am y sefyllfa bresennol. Roedd Grŵp Cynefin am gyflwyno cais cynllunio, ond roedd rhaid cynnal asesiadau pellach i fodloni’r broses gynllunio”.

Nododd y Cyngorydd Glenn Swingler na fu Grŵp Cynefin yn llwyddiannus yn eu cais i gael cyllid arloesol, ond eu bod wrthi’n gwneud cais am gyllid pellach gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd y Cyngorydd Swingler tybed a oedd unrhyw beth y gallai’r Cyngor ei wneud i helpu Grŵp Cynefin.

Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Cyngorydd Tony Thomas y byddai’n paratoi ymateb ysgrifenedig i’r Cyngorydd Glenn Swingler maes o law.

(ii) Cododd y Cyngorydd Mabon ap Gwynfor y cwestiwn canlynol:

“Yn dilyn y cyhoeddiad fod Allied Healthcare yn trosglwyddo ei gontractau gofal i ddarparwyr eraill, beth yw’r sefyllfa yn Sir Ddinbych i bobl oedd yn derbyn gofal gan Allied Healthcare, a pha gamau mae’r Cyngor wedi’u cymryd i sicrhau parhad yng ngofal y bobl hyn?”

Ymatebodd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth fel a ganlyn:

“Mae Allied Healthcare wedi gwerthu eu hasedau busnes i gwmni o’r enw The Health Care Resource Group. Golyga hyn bod y rheolwyr a’r staff sy’n gweithio yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn parhau yn eu swyddi, gan ddarparu parhad yng ngofal y tri ar ddeg o bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn y sir. Mae profion diwydrwydd dyladwy wedi cael eu cynnal ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi hysbysu’r perchennog newydd am ei gyfrifoldebau i gofrestru gyda nhw. Rydym yn parhau i fonitro’r sefyllfa ac os na fyddant yn cofrestru, byddwn yn cymryd camau pellach i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth unigolion yn cael eu bodloni’n briodol.”

Gofynnodd y Cyngorydd Mabon ap Gwynfor am ymateb pellach yn nodi a fyddai The Health Care Resource Group yn cael eu trwyddedu yng Nghymru. Gofynnodd hefyd a roddwyd ystyriaeth i ddod â hyn yn ôl yn fewnol yn hytrach na’i roi ar contract allanol.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol y byddai’n darparu gwybodaeth bellach pan fyddai ar gael iddi.

(iii) Cododd y Cynghorydd Rhys Thomas y cwestiwn canlynol:

“Ym mis Medi eleni, anfonwyd llythyr i un o rieni Ysgol Twm o'r Nant yn gofyn am daliad ôl-ddyledion arian cinio o £13.20. Roedd y llythyr yn bygwth, os na fyddai'r arian yn cael ei dalu neu becyn cinio yn cael ei ddarparu ar gyfer y plentyn, y byddai hyn yn cael ei amlygu fel mater amddiffyn plant, ac y byddai atgyfeiriad yn cael ei wneud ar unwaith i Dîm Plant Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych. Mewn gwirionedd, nid yn uniongyrchol o'r ysgol y daeth y llythyr, ond gan Gyngor Sir Ddinbych.

Ar 27 Tachwedd eleni, anfonwyd llythyr arall yn enw Cyngor Sir Ddinbych i rai o rieni Ysgol y Parc yn nodi, os na fyddai ôl-ddyledion arian cinio'n cael eu talu, na fyddai eu plant yn cael cinio Nadolig yr ysgol, hyd yn oed pe baent yn dod â'r arian ar y diwrnod i dalu amdano.

Tybed fyddai modd i'r Cyngor egluro pam fod y llythyrau annifyr a bygythiol hyn yn cael eu hanfon i rieni yn enw ein cyngor, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i roi stop ar y bobl hyn sy'n meddwl fod hon yn ffordd dderbyniol o geisio ad-daliad am ôl-ddyledion?

Rwy'n deall bod Pennaeth y Gwasanaeth wedi ymddiheuro ers hynny.”

Ymatebodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol fel a ganlyn:

“Yn gyntaf, cyhoeddwyd llythyr ar ôl gwyliau'r haf oedd yn hen lythyr na ddylai fod wedi cael ei gyhoeddi. Cyn gynted ag y daeth y mater i'w sylw, aeth Pennaeth y Gwasanaeth ati i newid y llythyr a chafwyd sicrwydd na fyddai llythyr o'r math hwn yn cael ei anfon allan yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r cinio Nadolig, ni ddylai'r llythyr hwnnw fod wedi'i gyhoeddi chwaith, ac nid oedd wedi bod drwy broses atgyfeirio briodol y gwasanaeth. Mae camau wedi'u cymryd gyda Phennaeth y Gwasanaeth a'r rheolwyr i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Roedd croeso i unrhyw blentyn oedd eisiau manteisio ar y cinio Nadolig wneud hynny.

Mae yna broses rheoli dyledion wedi'i sefydlu, a ddylai fod wedi cael ei defnyddio.

Gallaf eich sicrhau bod pob mesur perthnasol mewn lle i atal hyn rhag digwydd eto.”

Nododd y Cynghorydd Rhys Thomas ei fod yn dal mewn penbleth ynglŷn â pham fod y Cyngor wedi ysgrifennu'r llythyrau, ond bod rhaid i'r ysgolion eu hanfon i'r rhieni, er nad oeddent yn cytuno â nhw. Yna aeth ymlaen i ofyn i'r Aelod Arweiniol a oedd yn wir y byddai'r ôl-ddyledion yn cael eu tynnu o gyllideb yr ysgol pe byddent yn gwrthod anfon y llythyrau i'r rhieni?

Sicrhaodd yr Aelod Arweiniol y Cynghorydd Thomas na fyddai'n gyfreithiol gwneud hynny, ac nad oedd yn wir, hyd eithaf ei wybodaeth.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 14 Hydref 2018 a 21 Tachwedd 2018 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau oedd wedi gosod torch flodau ar 11 Tachwedd 2018 a diolchwyd hefyd i'r Is-gadeirydd a fynychodd ymweliad ysgol i Neuadd y Sir ar 21 Tachwedd 2018.

PENDERFYNWYD *derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu mynychu.*

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018.

Cywirdeb – Tynnodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler sylw at Dudalen 1 y cofnodion Saesneg, dan Eitem 1 – roedd gwall sillafu yn y paragraff ar y ddeiseb, ac fe ddylai ddarllen fel a ganlyn: “a petition was handed in by Councillor Joan Butterfield on behalf of” yn hytrach na “on behave of...”

Materion yn Codi:

Tudalen 10 (Eitem 3) – Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts i'r Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd beth oedd y sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r Swyddog Cartrefi Gwag. A benodwyd swyddog, a beth oedd yr amserlen?

Ymatebodd y Cynghorydd Tony Thomas, yr Aelod Arweiniol, bod y rhaglen ar gyfer cartrefi gwag ar y trywydd cywir i gyrraedd ei dargedau, ond nad oedd yna swyddog penodol i ddelio â chartrefi gwag.

PENDERFYNWYD *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

6 PREMIWM TRETH Y CYNGOR AR GARTREFI GWAG HIRDYMOR AC AIL GARTREFI

Datganodd y Cynghorydd Christine Marston gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan ei bod yn berchen ar ail gartref, a gadawodd Siambr y Cyngor tra trafodwyd yr eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, yr adroddiad ar Bremiwm Treth y Cyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

O ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2014, o 1 Ebrill 2017 ymlaen rhoddwyd pwerau i gynghorau yng Nghymru i godi hyd at 100% yn ychwanegol o Dreth y Cyngor ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi. Bwriad y ddeddfwriaeth oedd:

- helpu aildddefnyddio cartrefi gwag
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2017, cytunwyd i ddefnyddio'r pwerau hynny, a phenderfynwyd ar y canlynol:-

- Codi ardoll Treth y Cyngor o 50% yn ychwanegol ar gartrefi gwag hirdymor o fis Ebrill 2018 ymlaen
- Codi ardoll Treth y Cyngor o 50% yn ychwanegol ar ail gartrefi o fis Ebrill 2019 ymlaen (yn ôl y ddeddfwriaeth, rhaid rhoi 12 mis o rybudd am unrhyw newid i berchnogion ail gartrefi)

Ailgyflwynwyd yr adroddiad ger bron y Cyngor i adolygu'r sefyllfa drwy gydol yr wyth mis diwethaf.

Gwelwyd effaith weinyddol ar hyd y flwyddyn oedd yn cynnwys:

- Cynnydd mewn ymweliadau archwilydd eiddo er mwyn gwahaniaethu rhwng cartrefi gwag ac ail gartrefi.
Nes i'r premiwm gael ei gymhwyso ar gyfer y ddau ddsbarthiad o eiddo, roedd rhai cartrefi wedi cael eu hailddosbarthu o fod yn gartrefi gwag i fod yn ail gartrefi yn ystod y flwyddyn, ac ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses.
- Gwelwyd cynnydd mewn ymholiadau dros y ffôn i gychwyn, ond mae hyn bellach wedi sefydlogi.
- Cafwyd pump o gwynion Cam 1 er na chafodd yr un ohonynt eu hategu na'u symud ymlaen i Gam 2.

Amlygwyd ystadegau data o fewn yr adroddiad a ddangosodd leihad yn nifer yr eiddo gwag hirdymor, er bod y nifer sy'n gymwys i dalu premiwm wedi cynyddu. Gwelwyd hefyd gynnydd yn yr eiddo a ystyriwyd yn ail gartrefi, sy'n awgrymu rhywfaint o ailddosbarthu eiddo rhwng y categorïau yn ystod y flwyddyn.

Roedd nifer yr eiddo sy'n gymwys am y premiwm cartrefi gwag hirdymor yn uwch na'r hyn a ragwelwyd, a chafodd hyn ganlyniad a amcangyfrifwyd ar y sylfaen drethu. Awgrymodd y rhagolygon y byddai'r effaith ar incwm o Dreth y Cyngor tua £238k mewn blwyddyn lawn, o'i gymharu â'r rhagolwg o £99k a gyfrifwyd y llynedd. Roedd nifer yr eiddo sydd bellach yn cael eu hystyried yn ail gartrefi yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol. Byddai effaith hyn ar yr incwm, gan ddefnyddio'r un rhagdybiaethau â Rhagfyr 2017, yn cynhyrchu tua £158k.

Cadarnhawyd bod tua 90 o dai bellach yn cael eu haildddefnyddio, ond roedd angen dilysiad pellach o hyn.

Ar y pwynt hwn yn y drafodaeth, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod Swyddog Cartrefi Gwag yn cael ei gyflogi, yn groes i'r datganiad a gafwyd yn gynharach yn y cyfarfod.

Yn dilyn trafodaeth:

PENDERFYNWYD y byddai'r Cyngor yn:

- (i) nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cadw at y lefel bresennol o ardoll a gytunwyd, sef 50% yn ychwanegol o bremiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor
- (ii) mynd ati i weithredu'r premiwm Treth y Cyngor ychwanegol o 50% ar ail gartrefi o fis Ebrill 2019 ymlaen, fel y cytunwyd

7 CYFLOG BYW GO IAWN

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i ddarparu gwybodaeth am ac i ystyried goblygiadau talu Cyflog Byw Go Iawn (RLW) a dod yn gyflogwr RLW achrededig.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol bod gwaith a thrafodaethau yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r strwythur cyflog diwygiedig o Ebrill 2019 ymlaen, i ymgorffori'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Dyfarniad Cyflog Llywodraeth Leol.

Ar y pwynt hwn, cafwyd gwybodaeth am yr heriau ariannol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol. Byddai ansicrwydd wrth symud ymlaen os byddai Cyngor Sir Ddinbych yn dod yn gyflogwr RLW achrededig, gan y byddai angen i'r Cyngor warantu y byddai pob cyflenwr a chontractwr sy'n delio â Sir Ddinbych hefyd yn cael RLW. Un o'r goblygiadau mwyaf o ran cost fyddai'r sector gofal, fyddai'n cynyddu o £1 miliwn-£1.5 miliwn, a gallai hyn arwain at gwtogi mewn meysydd gwasanaeth eraill.

Ar y pwynt hwn, cyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms ddau ddiwygiad i'r argymhellion. Y diwygiad cyntaf oedd i gyflwyno adroddiad diweddar ar RLW i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf 2019, ond yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2019. EILWYD y diwygiadau gan y Cynghorydd Cheryl Williams.

Dyma'r diwygiadau:

- (i) Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno y bydd pob gweithiwr, o Ebrill 2019 ymlaen, yn ennill o leiaf isafswm y cyflog byw go iawn a osodwyd gan y Sefydliad Cyflog Byw Go Iawn erbyn y mis Ebrill yn dilyn cyhoeddi canlyniad y cyfrifiad blynyddol newydd.
- (ii) Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cytuno i ofyn i'w swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2019, sy'n amlinellu sut y gallai'r Cyngor symud tuag at y nod o sicrhau fod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael cyflog byw go iawn o leiaf. Dylai'r adroddiad hwnnw gynnwys costau ac amcangyfrifon i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad cytbwys ar y mater.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol:

- Cadarnhawyd, mewn perthynas â thalu staff, fod y fargen gyflog genedlaethol yn golygu y byddai'r RLW neu gyfwerth yn cael ei dalu ym mis Ebrill 2019. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae pen isaf y raddfa wedi cynyddu o ganran llawer uwch na chyflogau yn uwch i fyny ar y raddfa gyflog.
Mae hyn wedi achosi cywasgiad yn y graddfeydd, sydd wedi golygu cytuno ar golofn gyflog newydd yn genedlaethol, fyddai'n cychwyn o Ebrill 2019 ymlaen. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag undebau o ran y broses o drosglwyddo staff oddi ar y graddfeydd cyflog presennol i'r graddfeydd cyflog newydd.
- Byddai'r mater o warantu talu'r RLW bob amser, fel y soniwyd yn flaenorol, yn achosi sefyllfa lle byddai'r graddfeydd is yn codi i fod yn hafal i raddfa uwch.
Byddai hyn yn achosi anniddigrwydd ymysg staff oherwydd diflaniad y gwahaniaeth cyflog.
- O ran cwmnïau allanol sy'n gweithio i Sir Ddinbych, byddai hyn yn achosi problemau caffael, gan y byddai angen eu harchwilio a'u monitro.
Gellid dod â gwybodaeth mewn perthynas â'r mater hwn yn ôl fel gwybodaeth bellach.
- Cadarnhawyd mai Cyngor Dinas Caerdydd oedd yr unig gyflogwyr RLW achrededig yng Nghymru.

Ar y pwynt hwn, cynhaliwyd pleidlais, a dyma'r canlyniadau:

- (i) O blaid yr argymhellion ynghyd â'r 2 ddiwygiad - 33
- (ii) Ymatal – 0
- (iii) Yn erbyn yr argymhellion ynghyd â'r 2 ddiwygiad – 10

Felly:

PENDERFYNWYD:

- (i) Y byddai'r Cyngor yn nodi goblygiadau cost tybiedig talu'r Cyflog Byw Go lawn a dod yn gyflogwr Cyflog Byw Go lawn*
- (ii) Y byddai'r Cyngor yn cael adroddiad ym mis Rhagfyr 2019 ar argymhelliad y Sefydliad Cyflog Byw Go lawn a chanlyniad y trafodaethau cyflog cenedlaethol, ac, os bydd gwahaniaeth rhwng y ddau, yn penderfynu a ydynt am dalu'r Cyflog Byw Go lawn i'w staff yn y flwyddyn ariannol ddilynol ai peidio.*
- (iii) Bod Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cytuno i ofyn i'w swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2019, fydd yn amlinellu sut y gallai'r Cyngor symud tuag at y nod o sicrhau fod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cael cyflog byw go iawn o leiaf. Dylai'r adroddiad hwnnw gynnwys costau ac amcangyfrifon i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniad cytbwys ar y mater.*

Ar y pwynt hwn, cytunodd pawb oedd yn bresennol i newid trefn yr eitemau oedd ar ôl ar y rhaglen er mwyn y rhai oedd yn mynychu'r cyflwyniad Heart for Arts.

8 GWOBR HEARTS FOR ARTS

Yn bresennol, Samuel West, actor, seren ffilmiau, teledu a radio, i gyflwyno gwobr gelfyddydol fawreddog i Gyngor Sir Ddinbych.

Cyflwynodd Samuel West, Cadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, Wobr Heart for the Arts i'r Cyngor, sef gwobr y Prosiect Celfyddydol Awdurdod Lleol Gorau, am annog cydlyniant cymunedol gyda'i brosiect Ymgolli mewn Celf.

Mae Ymgolli mewn Celf yn brosiect celfyddydau gweledol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Nod y prosiect yw archwilio swyddogaeth y celfyddydau gweledol wrth fynd i'r afael â'r materion a all effeithio pobl gyda dementia, gan gynnwys ynysiad cymdeithasol, hyder, cyfathrebu ac ansawdd bywyd.

Datblygwyd y prosiect, a grëwyd gan y Gwasanaeth Celfyddydau, gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia ym Mhrifysgol Bangor a'i brosiect ymchwil, Dementia a'r Dychymyg. Mae dau grŵp yn cael eu cynnal yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, un yn y Rhyl a'r llall yng Nghanolfan Grefft Rhuthun.

Mae gan Samuel, sy'n fab i'r actorion enwog Timothy West a Prunella Scales, brofiad personol o dementia gan fod ei fam yn byw gyda'r cyflwr.

Nododd Samuel West fod prosiectau fel Ymgolli mewn Celf yn dod yn fwyfwy pwysig. Wrth i ni fyw'n hirach a dod i arfer â phroblemau sy'n ymwneud â dementia ac unigrwydd, ein lle ni i gyd yw dathlu'r pethau hyn a dod â'r gymuned hon ynghyd i'w gwneud yn llai o stigma. Mae'n syniad mor syml ac oherwydd hynny mae'n bosib ei gyflwyno i fannau eraill. Mae'n cael ei gyflawni'n dda iawn ac i lefel uchel o gywreinrwydd. Mae'n rhoi amrywiaeth ehangach o wahanol ffurfiau celf i bobl roi gynnig arnyn nhw. Mae'n eu galluogi i weithio gydag artistiaid proffesiynol a gwirfoddolwyr mewn llawer o wahanol ddisgyblaethau. Nid prosiect ar gyfer y pobl sy'n byw gyda dementia'n unig yw hwn, mae'n cynnwys eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Nododd y Cyngorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, gymaint yr oedd wedi gwirioni cael yr anrhydedd o dderbyn y wobr, gan gydnabod y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud gyda dementia a'r celfyddydau. Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod cymryd rhan mewn gweithgareddau celf creadigol yn gallu gwella hwyliau a hyder unigolion, ac yn rhoi mwy o ymdeimlad o berthyn i gymuned iddynt.

Roedd yr elfen o ddod â dwy genhedlaeth ynghyd gydag ysgolion lleol hefyd yn ychwanegiad gwych, ac roedd pawb oedd yn rhan o hyn yn teimlo boddhad o wybod fod y gwaith hwn wir yn gwella ansawdd bywyd pawb dan sylw.

Bu i'r Aelod Arweiniol gydnabod gwaith gwych y Gwasanaeth Celfyddydau a thîm creadigol Ymgolli mewn Celf, a ddyfeisiodd brosiect oedd â buddion iechyd i'r rhai oedd yn cymryd rhan ynddo, gan ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd eu bywydau.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol a'r Cynghorydd Gwyneth Kensler i Sian Fitzgerald, y Swyddog Datblygu Celfyddydau Cymunedol, a'i thîm am eu gwaith anhygoel.

9 ADOLYGIAD ETHOLIADOL SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, adroddiad Adolygiad Etholiadol Sir Ddinbych (a ddsbarthwyd ymlaen llaw), er mwyn rhannu cynigion drafft Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Sir Ddinbych.

Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) wedi cynnal ymgynghoriad yn 2017 ar feini prawf yr adolygiad. Bu i'r Comisiwn wahodd ymatebion i'w gynigion erbyn 13 Rhagfyr 2018.

Roedd y meini prawf statudol yn cynnwys cydraddoldeb etholiadol (nifer uchaf yr etholwyr i bob Cynghorydd), hunaniaeth gymunedol a threfniadau llywodraeth leol effeithiol a hwylus (e.e. wardiau etholiadol cydlynol gyda buddion cyffredin).

O fewn Sir Ddinbych, argymhellodd y Comisiwn gynnydd o 47 i 48 o Gynghorwyr. Byddai'r Cynghorydd ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer ardal De-ddwyrain y Rhyl, yn sgil ei rhannu'n ddwy ward etholiadol o'r enw Trellewelyn y Rhyl a Tŷ Newydd y Rhyl. Yna, byddai pob ward yn cael ei chynrychioli gan ddau Gynghorydd.

Roedd Gweithgor o Aelodau a sefydlwyd gydag Arweinwyr y Grwpiau wedi cyfarfod ym mis Tachwedd 2017 ac Ionawr 2018, ac mae eu hargymhellion i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad. Bu i'r Gweithgor gyfarfod eto ym mis Tachwedd 2018 i adolygu cynigion drafft y Comisiwn, ac mae'r casgliadau i'w gweld yn Atodiad 3 yr adroddiad.

PENDERFYNWYD y byddai'r Cyngor yn cadarnhau'r ymateb ffurfiol i gynigion drafft y Comisiwn ar gyfer trefniadau etholiadol Sir Ddinbych.

10 AROLWG AELODAU YNGHYLCH AMSEROEDD CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, yr Arolwg Aelodau ynghylch Amseroedd Cyfarfodydd y Cyngor (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn rhannu canlyniadau'r Arolwg.

Cynhaliwyd arolwg Aelodau yn ystod misoedd Awst a Medi 2018 i ganfod beth oedd orau ganddynt o ran amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau. Cafwyd cyfanswm o 35 ymateb, oedd yn cynrychioli 74% o aelodau'r Cyngor.

Nododd y Cynghorydd Paul Penlington fod yr arolwg wedi'i seilio ar Survey Monkey diennw a oedd yn annemocrataidd, yn ei farn ef, ac roedd y cwestiynau'n rhai arweiniol. Teimlai nad oedd cyfarfodydd boreol yn Rhuthun yn ffafriol i fwyafrif pobl Sir Ddinbych oedd eisiau mynychu cyfarfod. Pwyllgor Cynllunio oedd y cyfarfod roedd aelodau'r cyhoedd yn ei fynychu, am fod ganddynt ddiddordeb personol fel arfer.

Aeth y Cynghorydd Penlington yn ei flaen i nodi na chafodd cyfarfodydd am 6.30pm eu hawgrymu, ond bod y Grŵp Tasg a Gorffen wedi bod o blaid o leiaf un cyfarfod Pwyllgor yn cychwyn am 4.00pm. Cylch gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen oedd adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn, ond roedd wedi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd eto, yn ei farn ef, yn annemocrataidd.

Yn olaf, nododd y Cynghorydd Penlington fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i llunio i gymwys pobl, a bod angen i'r Cyngor adlewyrchu amrywiaeth yr ardal. I gloi, credai bod yr arolwg yn annigonol ac yn annemocrataidd ar y cyfan. Teimlai bod y Cyngor yn methu â mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac y dylai unrhyw benderfyniadau a wnaed ar amseroedd cyfarfod fod o ganlyniad i bleidlais ddemocrataidd yn y Cyngor Llawn.

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd bod y Mesur Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol arolygu Aelodau ynghylch pryd y byddai orau ganddynt fynychu cyfarfodydd. Yn arwain at yr etholiadau, cynhaliwyd sioeau teithiol ledled y sir i ddarpar ymgeiswyr eu mynychu. Byddai goblygiadau cost ynghlwm â chadw adeiladau ar agor ar gyfer cyfarfodydd gyda'r nos. Ni fyddai cost ychwanegol o ran staff sy'n cefnogi cyfarfodydd, gan eu bod yn gweithio ar system hyblyg.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol:

- Teimlai ambell i aelod bod angen rhyw fath o arolwg cyhoeddus i ganfod barn y cyhoedd.
- Mynegodd rhai aelodau bryder am gyfarfodydd gyda'r nos, gan y gallai fod yn anniogel i bobl deithio'n hwyr y nos, yn enwedig ym misoedd y gaeaf.
- Ni fyddai aelodau â theuluoedd yn hoffi bod allan mewn cyfarfod gyda'r nos gan y byddent yn colli allan ar amser teulu gwerthfawr.
- Roedd nifer o'r Cynghorwyr hefyd yn Gynghorwyr Tref a Chymuned ac yn Llywodraethwyr Ysgolion, sydd oll yn cynnal cyfarfodydd gyda'r nos.
- Mynegodd nifer o Gynghorwyr eu bod wedi digio gyda'r erthygl a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y Daily Post, oedd yn cyfeirio at Gynghorwyr fel bod mewn "clwb pobl wedi ymddeol".
- Cadarnhawyd y gellid cynnal trafodaeth y tu allan i'r cyfarfod i drafod cwestiynau'r arolwg yn y dyfodol.
- Diben y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd cefnogi Aelodau ym mhob maes, ac roedd yn Bwyllgor statudol oedd yn gallu delio ag adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen.
- O ran cynnwys y cyhoedd, un ffordd yr oedd y cyngor yn mynd i'r afael â'r mater hwn oedd drwy weddarlledu'r cyfarfodydd.

Ar y pwynt hwn, derbyniodd y Cynghorydd Paul Penlington ganfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen, a chytunodd gyda'r awgrym o gynnal un cyfarfod Pwyllgor am 4.00pm. Cynigiodd mai cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ddylai gael ei gynnal am 4.00pm. EILLIWDYD y cynnig gan y Cynghorydd Emrys Wynne.

Nododd y Cynghorydd Joe Welch, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, mai'r Pwyllgor Cynllunio oedd un o'r cyfarfodydd â'r presenoldeb gorau o

ran y cyhoedd ac Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Pwyllgor. Nododd nad oedd yn cymeradwyo cynnal y Pwyllgor Cynllunio am 4.00pm.

Cytunwyd y byddai'r diwygiad yn nodi y cytunwyd â chanfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen, gydag un cyfarfod Pwyllgor yn cael ei gynnal am 4.00pm. EILIWYD y cynnig gan y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams.

Cynhaliwyd pleidlais ar y diwygiad arfaethedig gan y Cynghorydd Paul Penlington, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

- (i) O blaid – 10
- (ii) Ymatal – 2
- (iii) Gwrthod – 28

Felly ni dderbyniwyd y diwygiad arfaethedig.

Cynhaliwyd pleidlais ar yr argymhelliad gwreiddiol i gadarnhau'r trefniadau presennol, gyda'r canlyniadau fel a ganlyn:

- (i) O blaid – 29
- (ii) Ymatal – 5
- (iii) Gwrthod – 6

PENDERFYNWYD bod y Cyngor wedi ystyried canlyniadau'r arolwg ac argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd, a'i fod yn cadarnhau y bydd trefniadau amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau yn aros fel ag y maent ar hyn o bryd.

11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Cadarnhawyd bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi cael ei diweddarau ers cyhoeddi pecyn y Rhaglen, a bod copi wedi cael ei anfon dros e-bost i bob Cynghorydd er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cyngor Sir
Dyddiad y Cyfarfod:	29 Ionawr 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh
Awdur yr Adroddiad:	Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Teitl:	Cyllideb 2019/20 – Cynigion Terfynol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Llywodraeth Leol 2019/20 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2019/20.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys y gellir ei chyflawni cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a gosod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.
- 2.2 Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith y Setliad Llywodraeth Leol a chymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2019/20, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2019/20.
- 3.2 Cymeradwyo'r gyllideb a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r cynigion a gyflwynwyd yn y gweithdy cyllideb i'r aelodau a gynhaliwyd ar 1 Ionawr 2019.
- 3.3 Cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o 6.35% yn Nhreth y Cyngor, sy'n cydnabod y pwysau cynyddol o ran costau ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion ac yn cefnogi'r dyraniad o £2.0m o gyllid ychwanegol ar draws y ddau wasanaeth.
- 3.4 Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les a gyflwynwyd fel rhan o'r adroddiad hwn.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Derbyniwyd y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2019/20 gan y cyngor ar 19 Rhagfyr a'r canlyniad oedd sefyllfa gyllido arian gwastad, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +0.2%. Roedd y Setliad Dros Dro a dderbyniwyd ym mis Hydref yn nodi gostyngiad o -0.5% (cyfartaledd Cymru yw -0.3%). Er mwyn i'r sefyllfa ariannu fod wedi bod yn niwtral o safbwynt y pwysau cyllidol *isaf posib* yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, byddai'n rhaid i'r Setliad fod wedi bod yn agosach at +5%.
- 4.2 Mae'r newid rhwng y ddau ffigwr setliad yn adlewyrchu £14.2 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i lywodraeth leol fel rhan o gynigion cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr a chyfrifoldeb newydd, wedi ei ariannu ar £7 miliwn ar draws Cymru, i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y terfyn cyfalaf

ar gyfer y rheiny sy'n talu am ofal preswyl i £50,000. Y dyraniad i Sir Ddinbych yw £250,000.

- 4.3 Wedi ei gynnwys yn y Setliad hefyd mae 'trosglwyddiadau i mewn' o £426,000 sy'n gysylltiedig â throsglwyddiadau grant ar gyfer costau rhan o'r flwyddyn dyfarniad cyflog diweddaraf athrawon a chymorth ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn cydnabod effaith Credyd Cynhwysol ar feini prawf cymhwyso. Nid yw'r Setliad Terfynol yn rhoi unrhyw syniad o'r lefel o gyllid y gall cynghorau ei ddisgwyl yn 2020/21.
- 4.4 Dangosir y cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2019/20 yn y detholiad o Gynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) y Cyngor yn Atodiad 1. Y prif bwyntiau yw:
- Setliad arian gwastad
 - Ariennir pwysau o ran cyflogau, pensiynau a'r Cyflog Byw Cenedlaethol (£1.9 miliwn)
 - Chwyddiant prisiau ac ynni (£250,000)
 - Lefi'r Gwasanaeth Tân (£238,000)
 - Lle ar gyfer cynnydd i gostau'r Cynllun Gostyngiadau i Dreth y Cyngor, gostyngiad i Grant Gweinyddu'r Adran Gwaith a Phensiynau a chronfeydd wrth gefn canolog (£537,000)
- 4.5 Yn ychwanegol, mae'r cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion drwy ariannu tâl a chwyddiant cysylltiedig ac unrhyw newid mewn perthynas â nifer y disgyblion. Mae hyn yn dod i £3.7 miliwn (cyfanswm o 5.4%) yn 2019/2020. Mae'r ffigur yn cynnwys cynnydd tâl a phensiynau i staff dysgu. Golygodd ailbrisiad diweddar y cynllun pensiwn athrawon cenedlaethol gynnydd yng nghostau cyflogwyr sy'n golygu pwysau o ran costau'r flwyddyn nesaf o £1.4 miliwn. Rhagdybir y bydd hyn yn cael ei ariannu gan y llywodraeth gan fod y penderfyniad yn rhan o gytundeb cenedlaethol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU.
- 4.6 Mae'r gyllideb a gynigir hefyd yn cydnabod pwysau mewn meysydd blaenoriaeth eraill, yn benodol:
- £1.5 miliwn ychwanegol i gydnabod pwysau cyfredol yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg (yn ychwanegol at y £750,000 a ddyrannwyd y llynedd)
 - £500,000 i gydnabod pwysau yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fel rhan o strategaeth hir dymor y cyngor i reoli cyllidebau gofal
 - £600,000 i gydnabod y pwysau ychwanegol ar gyllidebau cludiant i'r ysgol
 - £150,000 i gefnogi'r newid y cytunwyd arno'n ddiweddar i wasanaeth gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor.
 - Buddsoddiad o £500,000 ychwanegol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor a
 - £500,000 o arian at raid er mwyn cydnabod y risg o ran cyflawni'r pecyn arbedion a risgiau ehangach sy'n effeithio'r gyllideb
- 4.7 Er mwyn ariannu'r pwysau a nodwyd, bu'n rhaid canfod arbedion o £5.67 miliwn.
- 4.8 Mae'r rhain yn cynnwys:
- Arbedion corfforaethol a nodwyd yn 2018/19 (£0.5 miliwn)
 - Arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth (£1.3 miliwn)

- Arbedion gwasanaethau (£2.5 miliwn)
- Arbedion ysgolion o 2% (£1.32 miliwn)

4.9 Gosodir dadansoddiad o'r arbedion gwasanaethau yn y tabl isod:

Model Darparu Gwasanaeth Amgen	873	23%
Newid i lefel gwasanaeth a dderbynnir gan y cyhoedd	247	6%
Cynnydd mewn Ffioedd a Thaliadau neu gyfraniadau incwm allanol ychwanegol	725	19%
Caffael	88	2%
Lleihau gwasanaeth / tynnu gwasanaeth yn ôl	517	13%
Gostyngiadau Cyllidebol Technegol - dim effaith ar lefelau gwasanaeth	48	1%
Arbedion Effeithlonrwydd	1354	35%
Cyfanswm	3,852	100%

4.10 Ym mis Chwefror 2018, fel rhan o gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2018/19, cyflwynwyd crynodeb y MTFP oedd yn dangos bwlch cyllidol, cyn unrhyw fesurau lliniaru neu gynnydd yn Nhrefn y Cyngor o £10.5 miliwn, a sefyllfa debyg yn debyg yn cael ei nodi ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, sefydlwyd proses gyllideb newydd ar gyfer 2019/20, a arweiniodd at greu bwrdd strategol newydd i oruchwylio'r broses ac i gymeradwyo'r rhagdybiaethau allweddol o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP).

4.11 Mae'r Bwrdd Ail-lunio'r Cyngor yn cynnwys aelodau o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros gyllid a pherfformiad Mae hefyd yn derbyn cyngor gan swyddogion o Cyllid, AD a Chyfathrebu. Tasg y Bwrdd yw darparu proses gyllidebu bob blwyddyn ond o fewn cyd-destun tymor hir. Fel y bu am y rhan fwyaf o'r wyth mlynedd ddiwethaf, does dim ffigwr setliad dangosol dibynadwy ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, sy'n golygu bod rhaid cyfrifo tybiaethau deallus yn lleol. Gan fod y cyllid gan Lywodraeth Cymru i'w gyfrif am dri chwarter y cyllid net a dderbynnir, dyma elfen fwyaf sylweddol cyllideb y cyngor ac felly mae mân newidiadau iddo yn cael effaith sylweddol (mae pob newid o 1% gyfystyr â £1.431 miliwn).

4.12 Craffodd y Bwrdd ar gyllidebau gwasanaethau, a gofynnwyd i wasanaethau fodelu amrywiaeth o opsiynau arbedion. Aseswyd y rhain gan y Bwrdd, a rhoddwyd cyfarwyddyd i wasanaethau symud ceisiadau ymlaen yn unol â blaenoriaethau strategol. Y canlyniad oedd ceisio effeithio cyn lleied â phosib ar ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r cynigion yn y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn dangos bod cyllidebau gofal cymdeithasol, addysg, a phriffyrdd a'r amgylchedd wedi eu gwarchod i raddau, fel yr amlygir yn y tabl dros y dudalen.

DYRANIADAU ARBEDION I WASANAETHAU	CYLLIDEB 18/19	CYFANSWM %
CWSMERIAID, CYFATHREBU A MARCHNATA	2,831	8.0
ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT	14,127	1.1
GWELLA BUSNES A MODERNEIDDIO	4,573	6.6
GWASANAETHAU CYFREITHIOL, ADNODDAU DYNOL A DEMOCRATAIDD	2,624	5.8
CYFLEUSTERAU, ASEDAU A THAI	7,805	16.9
CYLLID	3,140	8.7
PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD	18,408	2.7

CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	2,961	14.2
GWASANAETHAU CYMORTH CYMUNEDOL	35,034	1.4
YSGOLION	68,166	2.0
CYFANSWM	159,668	

- 4.13 Cylchredwyd cynigion arbedion i aelodau etholedig ym mis Rhagfyr ac fe'u gosodwyd yn adran lyfrgell modern.gov. Penderfyniadau wedi'u dirprwyo yw'r rhan fwyaf o gynigion, un ai i benaethiaid gwasanaeth neu aelodau arweiniol a chyfanswm o £3.629 miliwn. Fodd bynnag, penderfynwyd fod angen cymeradwyaeth y cabinet ar ddau benderfyniad. Mae'r rhain yn dod i gyfanswm o £223,000 ac maent wedi eu rhestru yn Atodiad 2, a lle bo'r angen, atodir Asesiad o'r Effaith ar Les hefyd. Fel mae cyllidebau ysgolion yn cael eu datganoli, penderfyniad pob corff llywodraethu fydd sut i gyflawni'r targedau arbedion ar gyfer ysgolion.
- 4.14 Adolygir rhagdybiaethau Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn rheolaidd ac ailasesir y pwysau o ran costau. Yn ystod y flwyddyn, mae pwysau o ran Addysg a Gwasanaethau Plant wedi cynyddu, gan gynyddu lleoliadau costus, a llai o incwm o leoliadau allanol o fewn darpariaeth arbenigol y cyngor. Tra bo'r pwysau o ran costau ar ofal cymdeithasol i oedolion yn unol â'r rhagdybiaethau, mae'r risg yn dal i gael ei liniaru drwy ddefnyddio cronfeydd arian penodol wrth gefn yn ofalus. 2018/19 hefyd oedd y flwyddyn lawn gyntaf lle gwelwyd effaith newidiadau i'r polisi cludiant i'r ysgol, ac yn ogystal â chynnydd yn y nifer o ddisgyblion gyda gofynion cludiant penodol mae hyn wedi arwain at bwysau o ran costau o £600,000 (yn ogystal â'r cynnydd o £300,000 a gyllidwyd yn 2018/19).
- 4.15 Gan fod natur y pwysau hwn yn barhaus, nid yw'n gynaliadwy i reoli'r pwysau hyn heb gynyddu sail cyllid y cyngor yn barhaol. Fel mae cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn gostwng yn flynyddol mewn termau real, rhaid mynd i'r afael â'r pwysau yn lleol, drwy gydbwysedd o arbedion a Threth y Cyngor. Wrth gyfrifo cyfanswm lefel yr arian sydd ei angen gan awdurdodau lleol yn y Setliad gan Lywodraeth Cymru, gwneir rhagdybiaethau o ran y cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Ym manylion setliad 2019/20, mae'r gwahaniaeth rhwng ffigyrau 2018/19 a 2019/20 yn awgrymu cynnydd o 7%.
- 4.16 Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau o ran costau a amlygir yn yr adroddiad hwn ar unwaith, argymhellir bod Treth y Cyngor yn codi o 6.35%. Mae hwn yn ffigwr uwch nag a ragdybiwyd mewn fersiynau cynharach o'r MTFP ond mae'n cydnabod y setliad heriol gan Lywodraeth Cymru a'r pwysau lleol na ellir ei osgoi, yn arbennig o ran gofal cymdeithasol, ysgolion a chludiant. Ar 6.35%, bydd £797,000 ychwanegol yn cael ei godi o'i gymharu â'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn 2018/19. Bydd y swm ychwanegol hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r pecyn cyffredinol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb, sy'n cynnwys dyraniad ychwanegol o £2.0 miliwn i ofal cymdeithasol. Byddai'r cynnydd arfaethedig yn ychwanegu £79.24 y flwyddyn at ffi gyfartalog eiddo Band D (£1.52 yr wythnos) ac mae hyn yn £19.96 (38c yr wythnos) yn uwch na chynnydd y llynedd. Nodir hyn yn Atodiad 2.
- 4.17 Mae cynigion y gyllideb yn parhau i gynnwys elfen o gyllid i gefnogi'r sefyllfa gyffredinol. Nid yw hon yn sefyllfa ddelfrydol ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa ariannol anodd a pharhaus sy'n wynebu'r cyngor. Mae'r arian a nodwyd ar gyfer 2019/20 wedi ei

gynhyrchu o arbedion blaenorol a chaiff ei dynnu o gronfa wrth gefn benodol. Bydd yn helpu i leihau'r effaith y flwyddyn nesaf ond nid yw'n ddatrysiad parhaol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r cynigion yn cynnwys dyraniadau er mwyn parhau i gefnogi'r blaenoriaethau.

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1 Fel y nodwyd uchod.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Lesiant o'r [website](#) a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Mae asesiadau o effaith ar les ar gyfer y cynigion ar gyfer arbedion yn Atodiad 2 a'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor wedi'u hatodi.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

8.1 Cafodd aelodau eu briffio ar y sefyllfa ariannol ym mis Mehefin, Hydref ac Ionawr. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o broses y gyllideb. Ymgynghorwyd ag undebau llafur ar y broses. Ymgynghorwyd â'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar gynigion yr ysgolion. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl trosolwg o safbwynt proses y gyllideb.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel setliadau ariannol y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn fwy heriol i gynllunio'n ariannol mewn amgylchiadau a oedd eisoes yn anodd.

9.2 Mae gostyngiadau cyllidol sylweddol mewn termau real mewn awdurdodau lleol yng Nghymru tra mae costau wedi parhau i gynyddu. Mae ysgolion a gofal cymdeithasol yn cynrychioli'r elfennau mwyaf sylweddol o gyllideb y cyngor ac mae cost y rhain yn tyfu y tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Mae pwysau hefyd yn tyfu mewn meysydd eraill. Tra bydd y cyngor bob amser yn ceisio bod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, o ystyried bod arbedion o dros £35 miliwn wedi eu gwneud yn y chwe blynedd diwethaf, nid yw'n bosib bellach mynd i'r afael â'r bwlch cyllidol drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig a rhaid taro cydbwysedd gofalus rhwng arbedion gwasanaethau a threthu lleol. Mae'r detholiad o Gynllun Ariannol Tymor Canolig cyfredol y Cyngor yn nodi gofyniad arbedion o dros £7 miliwn yn 2020 a £4.5 miliwn y flwyddyn wedyn. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn y dyfodol.

9.3 Mae'r gyllideb sydd wedi'i chynnig ar gyfer 2019/20 yn adeiladu'r sail cyllido i'r lefel sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn ac yn caniatáu amser i'r cyngor lunio rhaglen gyllideb a chynigion ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y MTFP yn cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi ddechrau 2019 a bydd yn sail i'r broses gyllidebol ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

- 9.4 Mae gwasgfeydd ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn risg barhaus ar gyfer y cyngor hwn a phob cyngor arall. Mae'r cynigion yn 2019/120 o gymorth i liniaru o ran costau ond nid yw'n ddigonol i ariannu'r holl wasgfeydd sylfaenol yn llawn ac yn barhaol. Mae'r gwasgfeydd o ran costau mewn meysydd gwasanaeth eraill yn cael eu rheoli yn 2019/20 ond gallent fod yn risg mewn blynyddoedd i ddod.
- 9.5 Gyda chynnydd yn Nhreth y Cyngor o 6.35%, mae'r cyngor yn dal i gario nifer o risgiau ariannol ac ansicrwydd. Er enghraifft, nid yw problem pensiynau athrawon wedi ei datrys ar adeg gosod y gyllideb a bydd yn rhaid mynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn os na ddaw cymorth gan y llywodraeth. Yn ogystal, mae'r cyngor yn parhau i ddefnyddio'r cynnydd yn y gyllideb sylfaenol a chronfeydd arian wrth gefn yn ofalus, er mwyn lleddfu twf y galw mewn gofal cymdeithasol i oedolion. Os yw gwariant y flwyddyn yn uwch na'r rhagolygon, bydd faint o arian sydd ar gael i ariannu pwysau parhaol yn gostwng, wrth gwrs. Mae risgiau hefyd y tu hwnt i'r eitemau a amlygir yn yr adroddiad hwn neu eitemau sydd eisoes wedi eu darparu ar eu cyfer drwy gronfeydd wrth gefn a allai grisialu yn ystod y flwyddyn, ac os felly, byddai'n rhaid mynd i'r afael â nhw.
- 9.6 Mae cynigion y gyllideb yn cynnwys y defnydd o £2 miliwn o arian wrth gefn. Mae hyn yn lleihau'r gofyn am fwy o arbedion neu gynnydd mewn Treth y Cyngor y tu hwnt i'r hyn a argymhellwyd ar gyfer 2019/20 ond nid yw'n ddatrysiad parhaol ac fe'i argymhellir ar y sail bod yr arian eisoes wedi ei glustnodi.
- 9.7 Os nad yw'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cael eu derbyn, mae'n rhaid cyflwyno cynigion eraill i gydbwysu'r gyllideb.
- 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
- 10.1 Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Byddai methu a chytuno ar y cynigion hyn, heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu ein bwriad o gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20.
- 10.2 Mae'r arian wrth gefn a nodwyd yn helpu i warantu rhai risgiau. Byddai'r arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio os na fydd cynnydd pensiwn athrawon yn cael ei gyllido gan y llywodraeth. Byddai'n rhaid defnyddio mesurau eraill hefyd, gan gynnwys toriadau pellach yn ystod y flwyddyn.
- 10.3 Yn ogystal â'r risgiau penodol a'r ansicrwydd a amlygir yn yr adroddiad hwn, bydd risgiau pellach yn dod i'r amlwg yn ystod 2019/20 ac mae'n bwysig felly bod sail cyllideb y cyngor mor gryf â phosib o dan yr amgylchiadau.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
- 11.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

Appendix 1 Final Proposals 2019/20

	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000	2021/22 £'000
Funding				
Revenue Support Grant & NNDR (RSG)	143,119	143,637	141,482	139,360
Council Tax	49,299	52,901	55,203	57,603
SSA / Budget Requirement	192,418	196,538	196,685	196,962
Use of Balances	2,000	2,000		
Total Funding	194,418	198,538	196,685	196,962
Expenditure				
Base Budget	189,252	194,418	198,538	204,294
Inflation / Pressures:				
Pay	1,611	1,587	519	519
Pensions		350	350	350
Living Wage			500	500
Price - targeted	100	100	100	100
Price - NSI Energy	150	150	150	150
CTRS / Contingency	740	537	350	350
Fire Levy	44	237	100	100
Social Services	750	500	500	500
Childrens Service	750	1,500		
Waste Pressures		150	900	
School Transport		600		
Schools Inflation	1,502	1,780	1,000	1,000
Schools Demography Adjustment	290	625	787	787
Contingency		500		
Other known items:				
Investment in Priorities	500	500	500	500
Transfers into/out of Settlement	2,934	426		
New Responsibilities	406	250		
EFFICIENCIES / SAVINGS:				
Capital and Corporate Savings	(2,000)	(500)		
Other Corporate Savings	(1,000)			
Service Efficiency Target	(1,200)			
Service Savings Target	(411)			
Service Savings Phase 1		(823)		
Service Savings Phase 2		(599)		
Service Savings Phase 3		(1,221)		
Service Savings Phase 4		(333)		
Service Savings Phase 5		(376)		
Schools Efficiency Target		(1,320)		
Social Care Savings Target		(500)		
Total Expenditure	194,418	198,538	204,294	209,150
Funding Shortfall / (Available)	(0)	(0)	7,609	12,187
Annual increase/(decrease) in shortfall	(0)	(0)	7,609	4,578

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Appendix 2 Council Tax Impact

- sy'n derbyn yr elfen gymorth fel rhan o'i ddyfarniad o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh), neu
- sydd yn y grŵp gweithgaredd perthynol i waith ar gyfer LCCh.

Gwneir yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 16.

Caiff y diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 3(b) a 6(b) eu gwneud o ganlyniad i'r ffaith fod Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar fin cychwyn mewn perthynas â gwasanaeth maethu o fewn ystyr y Ddeddf honno. Mae'r cynllun a ddefnyddir ar hyn o bryd i gymeradwyo rhieni maeth wedi ei nodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff y Rheoliadau hynny eu disodli gan Reoliadau pellach a wneir yn unol ag adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y diwygiad er mwyn sicrhau y bydd rhieni maeth a gymeradwyir o dan Reoliadau 2003 neu o dan unrhyw reoliadau a wneir yn unol ag adrannau 87 a 93 o Ddeddf 2014 yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth a wneir yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig mewn cysylltiad â thrin costau gofal plant. Mae rheoliad 13 yn gwneud yr un diwygiad yn y Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiad i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliad 6(a)(vi) yn egluro'r sefyllfa mewn cysylltiad â didyniadau annibynyddion fel na fydd unrhyw ddidyniad yn digwydd pan na fo annibynnydd yn y grŵp gweithgaredd perthynol i waith ac yn derbyn budd-daliadau penodol, sef cymhorthdal incwm, credyd pensiwn y wladwriaeth, lwfans ceisio gwaith ar sail incwm neu lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2019 Rhif 11 (Cy. 5)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019

Gwnaed

8 Ionawr 2019

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1), a pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" yw cynllun a wneir gan

(1) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno, ac Atodlen 4 iddi.

awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(1), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiodyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

2. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

3. Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad: pensiynwyr)—

- (a) ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr)—
 - (i) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£13.10” rhodder “£13.75”;
 - (ii) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£4.35” rhodder “£4.55”;
 - (iii) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “£205.00” rhodder “£210.00”;
 - (iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£205.00”, “£355.00” ac “£8.70” rhodder “£210.00”, “£365.00” a “£9.15” yn y drefn honno;
 - (v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£355.00”, “£440.00” a “£10.95” rhodder “£365.00”, “£450.00” ac “£11.50” yn y drefn honno;
- (b) ym mharagraff 19(8)(k) (trin costau gofal plant: pensiynwyr), yn lle “Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003” rhodder “Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003(2), neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(3) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol”.

4. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£163.00” a “£176.40” rhodder “£167.25” a “£181.00” yn y drefn honno;

(1) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2014/852, O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20) ac O.S. 2018/14 (Cy. 7).

(2) O.S. 2003/237 (Cy. 35).

(3) 2014 dccc 4.

- (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£248.80” a “£263.80” rhodder “£255.25” a “£270.60” yn y drefn honno;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£248.80” ac “£85.80” rhodder “£255.25” ac “£88.00” yn y drefn honno;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£263.80” ac “£87.40” rhodder “£270.60” ac “£89.60” yn y drefn honno;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£64.30” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£65.85” ac yn lle “£128.60” rhodder “£131.70”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£25.48” rhodder “£26.04”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£62.86” rhodder “£64.19”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£36.00” rhodder “£36.85”.

5. Yn Atodlen 5 (diystiriadau cyfalaf: pensiywyr)—

- (a) ym mharagraff 21(2)—
 - (i) ym mharagraff (p) hepgorer “neu;”;
 - (ii) ym mharagraff (q) yn lle “.” rhodder “; neu”;
 - (iii) ar ôl paragraff (q) mewnosoder—
 - “(r) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014(1);” a

(b) ar ôl paragraff 28B mewnosoder—

“**28C.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â’r gyfradd a bennir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Taliad Cymorth Profedigaeth 2017(2) (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad.”

6. Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: personau nad ydynt yn bensiywyr)—

- (a) ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensiywyr)—
 - (i) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£13.10” rhodder “£13.75”;

(1) 2014 p. 19.
 (2) O.S. 2017/410.

- (ii) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£4.35” rhodder “£4.55”;
- (iii) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “£205.00” rhodder “£210.00”;
- (iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£205.00”, “£355.00” ac “£8.70” rhodder “£210.00”, “£365.00” a “£9.15” yn y drefn honno;
- (v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£355.00”, “£440.00” a “£10.95” rhodder “£365.00”, “£450.00” ac “£11.50” yn y drefn honno;
- (vi) yn is-baragraff (8) yn lle paragraff (a) rhodder—
 - “(a) nad yw’n aelod o’r grŵp gweithgaredd perthynol i waith, ac sy’n derbyn cymhorthdal incwm, credyd pensiwn y wladwriaeth, lwfans ceisio gwaith ar sail incwm neu lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm;”;
- (b) ym mharagraff 21(8)(k) (trin costau gofal plant) yn lle “Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003” rhodder “Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 sy’n gwneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol”.

7. Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£76.10” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£77.90” ac yn lle “£60.25” rhodder “£61.70”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£76.10” rhodder “£77.90”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£119.50” rhodder “£122.35”;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£33.55” a “£47.80” rhodder “£34.35” a “£48.95” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£64.30” ym mhob lle y mae’n digwydd rhodder “£65.85” ac yn lle “£128.60” rhodder “£131.70”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£62.86” rhodder “£64.19”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£36.00” rhodder “£36.85”;

(v) yn is-baragraff (5) yn lle “£25.48”, “£16.40” a “£23.55” rhodder “£26.04”, “£16.80” a “£24.10” yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau), ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle “£37.65” rhodder “£38.55”.

8. Yn Atodlen 8 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensiywyr), ym mharagraff 18(2)(b), yn lle is-baragraff (iv) rhodder—

“(iv) y ceisydd, nad yw'n aelod o gwpl, yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod—

(aa) swm cymwysadwy'r ceisydd yn cynnwys premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 7 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 7; neu

(bb) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith; neu

(v) y ceisydd yn aelod o gwpl ac o leiaf un aelod o'r cwpl hwnnw yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod yr aelod hwnnw o'r cwpl—

(aa) yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 7 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 7; neu

(bb) yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith.”

9. Yn Atodlen 9 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensiywyr)—

(a) ym mharagraff 46(2) ar ôl “Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd” mewnosoder “a Gofal Cymdeithasol”;

(b) ar ôl paragraff 66 mewnosoder—

“**67.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014 (taliad cymorth profedigaeth) ac eithrio unrhyw daliad o'r fath a ddiystyrir fel cyfalaf o dan baragraff 12(1)(h) neu 65 o Atodlen 10.”

10. Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 12(1)—

(i) ym mharagraff (g) yn lle “;” rhodder “;”;

(ii) ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

“(h) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014;”;

(b) ym mharagraff 43(2) ar ôl “Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd” mewnosoder “a Gofal Cymdeithasol”;

(c) ar ôl paragraff 64 mewnosoder—

“**65.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd a bennir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Cymorth Profedigaeth 2017 (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad.”

Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

11. Mae'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(1) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 12 i 19.

12. Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle “£13.10” rhodder “£13.75”;

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle “£4.35” rhodder “£4.55”;

(c) yn is-baragraff (2)(a) yn lle “£205.00” rhodder “£210.00”;

(d) yn is-baragraff (2)(b) yn lle “£205.00”, “£355.00” ac “£8.70” rhodder “£210.00”, “£365.00” a “£9.15” yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c) yn lle “£355.00”, “£440.00” a “£10.95” rhodder “£365.00”, “£450.00” ac “£11.50”.

13. Ym mharagraff 55(8)(k) (trin costau gofal plant) yn lle “Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003” rhodder “Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n gwneud

(1) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2014/852, O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20) ac O.S. 2018/14 (Cy. 7).

darpariaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol”.

14. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensïynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£163.00” a “£176.40” rhodder “£167.25” a “£181.00” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£248.80” a “£263.80” rhodder “£255.25” a “£270.60” yn y drefn honno;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£248.80” ac “£85.80” rhodder “£255.25” ac “£88.00” yn y drefn honno;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£263.80” ac “£87.40” rhodder “£270.60” ac “£89.60” yn y drefn honno;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£64.30” ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder “£65.85” ac yn lle “£128.60” rhodder “£131.70”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£25.48” rhodder “£26.04”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£62.86” rhodder “£64.19”;
 - (iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£36.00” rhodder “£36.85”.

15. Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£76.10” ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder “£77.90” ac yn lle “£60.25” rhodder “£61.70”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£76.10” rhodder “£77.90”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£119.50” rhodder “£122.35”;
- (b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£33.55” a “£47.80” rhodder “£34.35” a “£48.95” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£64.30” ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder

“£65.85” ac yn lle “£128.60” rhodder “£131.70”;

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£62.86” rhodder “£64.19”;

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle “£36.00” rhodder “£36.85”;

(v) yn is-baragraff (5) yn lle “£25.48”, “£16.40” a “£23.55” rhodder “£26.04”, “£16.80” a “£24.10” yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau), ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle “£37.65” rhodder “£38.55”.

16. Yn Atodlen 6 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensiynewyr), ym mharagraff 18(2)(b), yn lle is-baragraff (iv) rhodder—

“(iv) y ceisydd, nad yw'n aelod o gwpl, yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 yr wythnos ar gyfartaledd, a bod—

(aa) swm cymwysadwy'r ceisydd yn cynnwys premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 3 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 3; neu

(bb) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith; neu

(v) y ceisydd yn aelod o gwpl ac o leiaf un aelod o'r cwpl hwnnw yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod yr aelod hwnnw o'r cwpl—

(aa) yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 3 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 3; neu

(bb) yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith.”

17. Yn Atodlen 7 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensiynewyr)—

(a) ym mharagraff 46(2) ar ôl “Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd” mewnosoder “a Gofal Cymdeithasol”;

(b) ar ôl paragraff 66 mewnosoder—

“67. Unrhyw daliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014 (taliad cymorth profedigaeth) ac eithrio unrhyw daliad o’r fath a ddiystyrir fel cyfalaf o dan baragraff 12(1)(h) o Atodlen 9 neu baragraff 65 o Atodlen 9.”

18. Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr)—

- (a) ym mharagraff 21(2)—
 - (i) ym mharagraff (p) hepgorer “neu;”;
 - (ii) ym mharagraff (q) yn lle “.” rhodder “; neu”;
 - (iii) ar ôl paragraff (q) mewnosoder—
 - “(r) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014.”;
- (b) ar ôl paragraff 28B mewnosoder—

“28C. Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â’r gyfradd a bennir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Taliad Cymorth Profedigaeth 2017 (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad.”

19. Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yn lle paragraff 12(1) rhodder—
 - “(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), unrhyw ôl-ddyled o’r canlynol, neu unrhyw daliad consesiynol a wneir i ddigolledu am ôl-ddyled oherwydd methiant i dalu’r canlynol, ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael yr ôl-ddyled neu’r taliad consesiynol—
 - (a) unrhyw daliad a bennir ym mharagraffau 11, 13 neu 14 o Atodlen 7;
 - (b) budd-dal ar sail incwm o dan Ran 7 o DCBNC(1);
 - (c) lwfans ceisio gwaith ar sail incwm;
 - (d) unrhyw daliad tai disgresiynol a delir yn unol â rheoliad 2(1) o Reoliadau Cymorth Ariannol Disgresiynol 2001(2);

(1) Ystyr “DCBNC” yw Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (p. 4); gweler y diffiniad yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ac ym mharagraff 2 o’r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013.

(2) O.S. 2001/1167.

- (e) credyd treth gwaith a chredyd treth plant;
 - (f) lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm;
 - (g) credyd cynhwysol;
 - (h) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014.”;
- (b) ym mharagraff 43(2) ar ôl “Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd” mewnosoder “a Gofal Cymdeithasol”;
- (c) ar ôl paragraff 64 mewnosoder—

“**65.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd a nodir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Taliad Cymorth Profedigaeth 2017 (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad.”

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion
Cymru

8 Ionawr 2019

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cyngor Sir
Dyddiad y Cyfarfod:	29 Ionawr 2019
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Hugh Evans, Arweinydd
Awdur yr Adroddiad:	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Teitl:	Papur Gwyn Llywodraeth Cymru - Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru – Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ceisio barn yr Aelodau ar y Papur Gwyn - Diwygio'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn i ymateb y Cyngor gael ei ddrafftio i'r ymgynghoriad ynghylch y cynigion ar gyfer diwygio'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Cyngor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys y Papur Gwyn – Diwygio'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, ac yn awdurdodi'r Arweinydd i gymeradwyo, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp, ymateb ar ran y Cyngor.

4. Manylion yr adroddiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn o'r enw Diwygio'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (y Papur Gwyn) gyda'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad y 5 Chwefror 2019. Wrth gydnabod bod y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn perfformio'n dda yn eu gweithrediadau, mae'r Papur Gwyn yn cynnig newidiadau i drefniadau llywodraethu ac aelodaeth awdurdodau tân ac achub, ac i'w perthynas â'u awdurdodau lleol cyfansoddol wrth bennu cyllidebau. Amgaeir copi o'r Papur Gwyn yn Atodiad 1.

Nid yw'r Papur Gwyn yn cynnig newid nifer yr awdurdodau tân ac achub, ac nid yw ychwaith yn cynnig unrhyw newidiadau i'w ffiniau.

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i nodi y dylai pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth fod yn falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni ac nad yw'r achos dros newid yn awgrymu unrhyw ddiffygion ar ran staff, rheolwyr nac aelodau awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y dylai unrhyw ddiwygiad greu arweiniad clir ac effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau tân ac achub, a bod yn atebol amdanynt.

Mae'r Papur Gwyn yn gwneud cynigion i newid nifer a math yr Aelodau sy'n cael eu penodi i awdurdodau tân ac achub, newidiadau i'r ffordd y cânt eu hariannu a'r ffordd y mae'n ofynnol iddynt reoli perfformiad.

Mae pum pennod i'w gweld yn y Papur Gwyn:

Pennod 1 - Yr achos dros newid

Pennod 2 - Cynllunio system newydd

Pennod 3 - Cynigion ar gyfer newid (1): llywodraethu ac aelodaeth

Pennod 4 - Cynigion ar gyfer newid (2): ariannu

Pennod 5 - Cynigion ar gyfer newid (3): rheoli perfformiad

Bydd Aelodau yn cael cyflwyniad byr yn y cyfarfod am y materion y ceisir barn y cyngor arnynt.

Awgrymir o'r safbwyntiau hyn y bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei ddrafftio i gael ei gymeradwyo gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r ymarfer ymgynghori ynddo'i hun yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fydd unrhyw gostau uniongyrchol o ymateb i'r papur ymgynghori.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad O'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu gwneud gydag Archwilio ac eraill?

Mae hwn yn ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Ni fu unrhyw ymgynghori uniongyrchol â'r pwyllgorau craffu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at ffynhonellau cyllid posibl ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn y dyfodol. Yn y tymor byr, y dewis a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y papur yw addasu'r system ariannu bresennol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub gytuno ar lefel y cyllid bob blwyddyn gyda'u hawdurdodau lleol cyfansoddol, gyda Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i gymrodeddu os na ellir dod i gytundeb. Ymhlith y dewisiadau eraill a gwmpesir mae arian grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno praesept. Mae'r ymgynghoriad yn nodi rhai o oblygiadau posibl y

gwahanol gynigion, gan gynnwys y goblygiadau posibl i gyllid cynghorau. Dylid ystyried y rhain wrth ymateb yn ffurfiol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

s111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Ymgynghoriad ar ddiwygio trefniadau llywodraethu a chyllido
Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 13 Tachwedd 2018

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 05 Chwefror 2019

Trosolwg	Diben yr ymgynghoriad hwn yw holi'ch barn ynghylch cynigion i ddiwygio sut y caiff Awdurdodau Tân ac Achub eu llywodraethu a'u cyllido.
Sut i ymateb	<p>I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein drwy glicio yma:</p> <p>https://beta.llyw.cymru/diwygio-awdurdodau-tan-ac-achub-yng-nghymru</p> <p>Fel arall, gallwch ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân sydd wedi ei darparu a'i hanfon drwy e-bost i: fire@gov.wales</p> <p>neu ei hanfon drwy'r post i'r cyfeiriad isod.</p> <p>Y dyddiad cau i dderbyn ymatebion yw 05 Chwefror 2019.</p>
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	<p>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</p> <p>Cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we:</p> <p>https://beta.llyw.cymru/diwygio-awdurdodau-tan-ac-achub-yng-nghymru</p>
Manylion cyswllt	<p>I gael rhagor o wybodaeth:</p> <p>Y Gangen Gwasanaethau Tân Llywodraeth Cymru Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ</p> <p>E-bost: fire@gov.wales Rhif ffôn: 0300 062 8226</p>

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus



Rydym yn falch o'n gwasanaethau tân ac achub, a hynny'n gwbl briodol hefyd. Maen nhw'n ymateb yn gyflym, yn effeithlon ac yn anhunanol i fynd i'r afael â bygythiadau difrifol i'n diogelwch. Yn fwy na hynny, mae eu gwaith atal a diogelwch wedi helpu i sicrhau bod nifer y tanau fwy na hanner yn is ers datganoli'r cyfrifoldeb i Gymru yn 2005.

Mae hynny'n llwyddiant mawr, ond mae hefyd yn her. Wrth i nifer y tanau ostwng, mae swyddogaeth y Gwasanaeth yn ehangu. Mae gan ddiffoddwyr tân y medrau, y cymwyseddau a'r gwerthoedd i ymdrin ag ystod eang o ddigwyddiadau eraill, megis llifogydd, argyfyngau meddygol ac ymosodiadau terfysgol. Ond i fanteisio i'r eithaf ar y gallu hwnnw, mae angen i'r Gwasanaeth gael ei lywodraethu a'i ariannu mewn modd modern, atebol a chynaliadwy. Nid felly y mae hi ar hyn o bryd.

Mae heriau eraill hefyd. Mae pobl yn byw yn hirach, ond mae mwy o risg i bobl hŷn gael tanau yn eu cartrefi. Mae angen dysgu gwersi o drychineb Tŵr Grenfell o hyd, a gweithredu arnynt. Bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu'r perygl o lifogydd a thanau gwyllt. Ac mae cyllid cyhoeddus yn gyfyng eithriadol – sefyllfa sy'n debygol o waethygu yn sgil Brexit. Eto, mae angen y safonau uchaf o arweinyddiaeth ac eglurder, gan sicrhau bod gan y Gwasanaeth yr adnoddau sydd eu hangen arno, ond gan roi hynny mewn cyd-destun ehangach hefyd.

Nid bai'r Gwasanaeth yw hyn. Mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn dyddio'n ôl i ganol yr 1990au. Er iddynt fod o bosibl yn addas bryd hynny i redeg brigâd dân mewn tref, mae'r Gwasanaeth a'r gofynion a roddwyd arno wedi newid yn sylweddol ers hynny.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae'n cynnwys y ddatl gyffredinol dros ddiwygio, ynghyd â sut orau yr hoffem weld hynny'n digwydd.

Mae'n rhaid diwygio os yw'r Gwasanaeth eisiau gweld dyfodol cynaliadwy, ac nid yw dal ati yn yr un rhigol yn ddewis, na chwaith y nifer o bosibiliadau damcaniaethol eraill y mae Pennod 2 y ddogfen hon yn eu disgrifio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rwy'n credu fod canlyniad y diwygio yn bwysicach na'r cyfrwng. Byddwn, felly, yn fodlon ystyried unrhyw bosibiliadau diwygio eraill a fyddai'n bodloni'n glir y meini prawf y mae'r ddogfen hon yn eu disgrifio.

Mae newid yn rhy aml yn ymateb i fethiant, ac yn rhoi mwy o faich byth ar sefydliadau sydd mewn trafferthion. Nid felly y mae yma. Rwyf eisiau adeiladu ar y llwyddiannau a gawsom, a chynnal y gwasanaethau yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau.

Alun Davies AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENNOD 1

Y ddadl dros newid

- 1.1 Mae'r bennod hon yn egluro'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli a darparu gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, a pham mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylent newid.
- 1.2 Nid yw hyn yn golygu bod angen gwella gwasanaethau craidd a thraddodiadol y gwasanaethau tân ac achub. Maent wedi perfformio'n dda ers tro byd. Mae tanau a phobl sy'n cael eu hanafu mewn tanau yn lleihau'n gyson yng Nghymru, fel mewn mannau eraill.
- 1.3 Mae'r tueddiadau hynny, yn rhannol o leiaf, yn ganlyniad i waith y gwasanaeth tân yn gwella diogelwch tân ac yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon pan fo tanau'n dechrau. Nid ein diben ni yw herio hynny; yn wir, credwn y dylai fod pawb sy'n rhan o'r gwasanaeth fod yn falch iawn o'r hyn y maen nhw wedi ei gyflawni. **Mae'n rhaid i unrhyw ddiwygio warchod yr enw da hwn a chaniatáu i'r Gwasanaeth Tân gynnal a gwella hynny i'r graddau mwyaf posibl.**
- 1.4 Mae'r ddadl dros newid yn seiliedig yn hytrach ar yr angen i wella gallu'r gwasanaeth i gynnal y llwyddiant hwnnw ac adeiladu arno. Mae angen iddo allu deall ac ymateb i heriau hirdymor sy'n dechrau dod i'r amlwg, a gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu cyd-destun ehangach darparu gwasanaethau cyhoeddus. Credwn fod y trefniadau presennol yn ddiffygiol yn hyn o beth. Mae'r rhesymau am hynny i gyd yn deillio o'r fframwaith llywodraethu a chyllido statudol sy'n dyddio'n ôl i ganol yr 1990au. **Nid yw'r ddadl dros newid yn awgrymu unrhyw ddiffygion o gwbl ar ran aelodau, rheolwyr na staff yr Awdurdod Tân ac Achub.** Bu'n rhaid iddyn nhw weithio gyda'r system fel y mae hi, a chredwn eu bod wedi gwneud hynny gystal â phosibl.

Y trefniadau presennol

- 1.5 Ers 1996, darparwyd y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru gan dri Awdurdod Tân ac Achub. Mae pob awdurdod, mewn cyfraith, yn *awdurdod cyfun*, sy'n golygu eu bod wedi eu ffurfio o gyfuniad o awdurdodau lleol yn eu hardaloedd - er bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn endid ar wahân yn ei hawl ei hun. Mae'r awdurdodau lleol cyfun hynny yn eu tro yn gyfrifol am aelodaeth a chyllid yr Awdurdod Tân ac Achub, fel a ganlyn:
- 1.6 Yn gyntaf oll, mae pob awdurdod lleol yn enwebu nifer penodol o gynghorwyr i fod yn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r nifer hwnnw yn cyfateb yn gyffredinol i boblogaeth yr awdurdod lleol fel cyfran o boblogaeth ardal yr Awdurdod Tân ac Achub. Mater i bob awdurdod lleol yw dewis aelodau; ond caiff aelodau Awdurdod Tân ac Achub eu dewis ar y cyfan o blith cynghorwyr heb gyfrifoldebau eraill megis bod yn aelodau o weithrediaeth cyngor neu gadeiryddion pwyllgorau craffu neu archwilio.
- 1.7 Yn ail, darperir bron y cyfan o gyllid yr Awdurdodau Tân ac Achub gan yr awdurdodau lleol. Mae hyn ar ffurf cyfraniadau y mae pob Awdurdod Tân yn ei gyfrifo a'i godi ar bob un o'i gynghorau cyfun. Mater i'r Awdurdod Tân ac Achub yw penderfynu ar faint pob cyfraniad. Unwaith eto, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ymarferol yn ceisio seilio'r

symiau y maen nhw'n eu codi ar gyfran pob Awdurdod Tân ac Achub o'r boblogaeth leol, i gyfyngu cynnydd mewn cyllid i'r isafswm y maen nhw'n ei gredu sy'n angenrheidiol, a rhoi sylw i unrhyw bryderon neu sylwadau gan awdurdodau lleol - ond does dim rheidrydd iddyn nhw wneud hyn.

Awdurdod Lleol	Aelodau Awdurdod Tân ac Achub	Cyfraniad Cyllid 2016-17 (£000)
Conwy	5	5,277
Sir Ddinbych	4	4,364
Sir y Fflint	6	7,023
Gwynedd	5	5,598
Ynys Môn	3	3,191
Wrecsam	5	6,433
Cyfanswm Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	28	31,886
Sir Gaerfyrddin	5	9,172
Ceredigion	2	3,696
Castell-nedd Port Talbot	4	6,851
Sir Benfro	3	6,036
Powys	4	6,537
Abertawe	7	11,913
Cyfanswm Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	25	44,205
Blaenau Gwent	1	3,171
Pen-y-bont ar Ogwr	2	6,541
Caerffili	3	8,279
Caerdydd	5	16,776
Merthyr Tudful	1	2,748
Sir Fynwy	2	4,209
Casnewydd	2	6,892
Rhondda Cynon Taf	4	10,789
Torfaen	2	4,208
Bro Morgannwg	2	5,898
Cyfanswm Awdurdod Tân ac Achub De Cymru	24	69,511
Cyfanswm Cymru	77	145,602

Atebolrwydd a chraffu

- 1.8 Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y trefniadau hyn yn golygu nad yw Awdurdodau Tân ac Achub mor atebol ag y dylen nhw fod. Mewn unrhyw ddemocratiaeth, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn atebol mewn modd eglur i'r rheini a wasanaethir ganddynt. Mae hynny'n sicrhau eu bod yn bodloni anghenion a disgwyliadau'r cyhoedd - ac y creffir arnynt, a'u herio, os nad ydynt yn eu bodloni. Dylai gyrff cyhoeddus felly

naill ai fod wedi eu hethol yn uniongyrchol (fel yn achos awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol); neu dylent fod yn atebol yn ffurfiol ac mewn modd eglur i gyrrff o'r fath.

- 1.9 Nid yw'r naill beth na'r llall yn wir am Awdurdodau Tân ac Achub. Er mai cyngorwyr etholedig yw eu haelodau, nid yw'r cyngorwyr hynny'n atebol i'w cyngor 'cartref' am eu gweithredoedd fel aelodau o Awdurdod Tân ac Achub. Yn wir, pan fônt yn gweithredu fel aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub, mae'n ddyletswydd arnynt i roi eu teyrngarwch i'w hawdurdod lleol o'r neilltu, ac yn hytrach weithredu yn unol â buddiannau'r Awdurdod Tân ac Achub. Nid yw aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynrychioli'r etholwyr i unrhyw raddau sylweddol chwaith. Dim ond oddeutu 6% o'r cyngorwyr yng Nghymru sy'n aelodau o Awdurdod Tân ac Achub, sy'n golygu mai dim ond cyfran fechan iawn o'r etholwyr sy'n cael eu cynrychioli ganddynt. Hyd yn oed pe bai'r ychydig bobl hynny yn ymwybodol fod eu cyngorydd wedi bod yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub, ymddengys yn annhebygol y byddai hynny wedi effeithio rhyw lawer ar benderfyniadau pleidleisio ochr yn ochr â dylanwadau eraill megis gwasanaethau awdurdod lleol neu ymlyniad plaid. Ac nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r cyfryw gynghorydd, pe câi ei ailethol, yn cael ei ailbenodi i'r Awdurdod Tân ac Achub beth bynnag. Felly nid yw penderfyniadau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn seiliedig ar unrhyw fath o fandad democrataidd, ac nid yw aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol chwaith i'r etholwyr ar y cyfan am y penderfyniadau hynny.
- 1.10 Mewn awdurdodau lleol, caiff atebolrwydd democrataidd ei ehangu drwy rannu cyfrifoldebau rhwng cabinet, sy'n gwneud y penderfyniadau mwyaf, a'r pwyllgorau craffu, sy'n dwyn y cabinet i gyfrif. Nid yw'r gwahaniaeth hwnnw yn bodoli'n ffurfiol mewn Awdurdod Tân ac Achub, ac ni allai ychwaith. Mae'n dibynnu ar ethol aelodau ar fandad gwleidyddol: mae cabinet unrhyw gyngor fel arfer yn cynnwys grŵp y blaid sy'n rheoli neu glymblaid, gyda phwyllgorau craffu wedi eu llunio i roi cynrychiolaeth deg i bleidiau eraill. Ond nid oes gan aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub unrhyw fandad o'r fath i'r perwyl hwnnw.
- 1.11 Ar yr un pryd, nid yw'r Awdurdodau Tân ac Achub yn hollol atebol i sefydliadau cenedlaethol chwaith. Mae nifer o sefydliadau cyhoeddus eraill yng Nghymru, er enghraifft, yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, eu hunain yn atebol i Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r berthynas honno fel arfer yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar gyllideb a natur polisi cyrff o'r fath, ac yn atebol am y penderfyniadau hynny i'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru berthynas o'r fath ag Awdurdodau Tân ac Achub. Er ei fod yn pennu cyfeiriad strategol bras ar ffurf Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub, dim ond canllaw yw hynny y dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub "ei ystyried"; yr Awdurdodau Tân ac Achub yn unig sy'n gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol. Ac fel yr eglurir isod, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddylanwad o gwbl dros gyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub
- 1.12 Mae'n wir fod mathau eraill o atebolrwydd yn bodoli yn y sector. Er enghraifft, mae swyddogion a rheolwyr Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol i aelodau'r Awdurdodau hynny. Ond dim ond trefn fewnol yw hynny; mae diffyg eglurder ac annibyniaeth iddi, ac nid yw'n gyfystyr â'r atebolrwydd cyhoeddus a democrataidd a ddisgrifir uchod. Mae'n bosibl i Awdurdodau Tân ac Achub gael eu harchwilio hefyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, fel sy'n wir am holl gyrrff datganoledig Cymru. Mae hynny yn allanol, yn annibynnol ac yn dryloyw; ond mae wedi ei gyfyngu gan gylch gwaith statudol a

threfniant archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. Er enghraifft, nid yw archwilwyr byth yn herio hanfod polisi neu benderfyniadau gwario unrhyw sefydliad, nac yn dadlau dros ddewisiadau amgen. Gallant ond ystyried y ffordd y gweithredwyd y penderfyniadau hynny, a sut y cânt eu hadlewyrchu yng nghyfrifon y sefydliad.

- 1.13 Efallai y byddai rhai pobl yn dweud bod diffyg atebolrwydd yn anghywir mewn egwyddor. Rydym yn cytuno: ond byddai hynny ynddo'i hun yn ddadl wan dros newid. Mae goblygiadau mwy ymarferol i'r problemau hyn, fodd bynnag, fel y gwelir isod.

Arloesi a newid

- 1.14 Diben atebolrwydd cyhoeddus yw bod sefydliadau a'i benderfyniadau yn dod wyneb yn wyneb ag ystod eang o safbwyntiau a dylanwadau. Drwy wneud hynny, dylai hynny ddilysu bod y sefydliad yn bodloni disgwyliadau ac anghenion cyhoeddus; a/neu herio hynny ac awgrymu gwahanol egwyddorion a ffyrdd o weithredu. Mewn gair, dylai helpu cyrff cyhoeddus i adnabod anghenion newidiol a ffyrdd arloesol o'u diwallu. Mae hynny'n ganolog i ddarparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus, lle mae penderfyniadau ynghylch beth i'w ddarparu ac i bwy yn fater o bolisi cyhoeddus yn hytrach na mecanweithiau'r farchnad.
- 1.15 Mae pob un o'n Hawdurdodau Tân ac Achub wedi newid ac arloesi yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi cwblhau adolygiad trylwyr o wasanaethau tân rheng flaen; mae Awdurdodau Tân ac Achub y Gogledd a'r Canolbarth wedi trawsnewid eu trefniadau o ran eu criwiau; ac mae pob un o'r tri awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran arallgyfeirio'r gwasanaeth i fynd i'r afael ag ystod ehangach o beryglon a digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â tân. Mae hyn i gyd a llawer iawn mwy yn gadarnhaol ac yn ganmoladwy.
- 1.16 Fodd bynnag, mae absenoldeb trefniadau atebolrwydd cwbl effeithiol yn golygu nad yw'r datblygiadau hyn, ynghyd â rhai eraill, wedi bod yn destun trafod na chraffu trylwyr, nac wedi cael eu herio ychwaith. Mae'n berffaith bosibl y byddai gweithredu pellach neu mewn modd gwahanol wedi bod yn fwy priodol; neu fod cyfleoedd eraill yn cael eu colli neu anghenion eraill na chânt eu diwallu. Ni wyddom hynny, ac ni allwn wybod hynny.
- 1.17 Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gydnabyddiaeth fod angen i'r Gwasanaeth Tân newid a bod yn fwy amrywiol ei swyddogaeth. Mae'r llwyddiant a gafodd y Gwasanaeth yn lleihau'r achosion o danau wedi creu posibilrwydd sylweddol i fynd i'r afael â mathau eraill o beryglon hefyd. Heb hynny, mae perygl y bydd y Gwasanaeth yn ysglyfaeth i'w lwyddiant ei hun. Ond, mae cydnabod y posibilrwydd hwnnw ac arwain y Gwasanaeth yn y cyfnod hwn o newid yn gofyn am ymwybyddiaeth fanwl iawn o anghenion a chyfleoedd ehangach. Mae hynny'n llai tebygol o ddigwydd tra caiff yr Awdurdodau Tân ac Achub eu rheoli fel pe baent yn wasanaethau trefol yn eu hawl eu hunain. Ni fu trafodaeth ynghylch swyddogaeth y Gwasanaeth Tân yn y dyfodol erioed yn bwysicach - ond nid yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn cefnogi hynny.
- 1.18 Felly, credwn y dylai diwygio **greu arweinyddiaeth glir ac effeithiol o ran datblygu a darparu gwasanaethau tân ac achub, ac atebolrwydd ar gyfer hynny**. Yn benodol, dylai hyn gefnogi trafodaeth lawn ac agored am y posibilrwydd o arallgyfeirio'r gwasanaeth.

Adnoddau

- 1.19 Fel y nodwyd, mae'r rhan fwyaf o gyllid yr Awdurdodau Tân ac Achub yn dod o gyfraniadau gan yr awdurdodau lleol, gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub yn llwyr gyfrifol am bennu'r graddfeydd. Nid oes gan awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru unrhyw hawl i gydsynio i'r cyfraddau hynny. Mewn cymhariaeth, mae awdurdodau lleol yn cael y rhan fwyaf o'u cyllid gan Lywodraeth Cymru, sydd, yn ei dro, angen sêl bendith y Cynulliad i osod cyllideb. Caiff y rhan fwyaf o weddill cyllid pob awdurdod lleol ei godi drwy'r dreth gyngor, ac mae'r awdurdod a'i aelodau wrth gwrs yn uniongyrchol atebol i'r etholwyr am hyn.
- 1.20 Mae'r absenoldeb hwn o unrhyw ffurf o reolaeth allanol dros gyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub yn unigryw yn sector cyhoeddus Cymru, a hyd y gwyddom ni, yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdodau Tân ac Achub ar y cyfan wedi gweithredu eu pwerau cyllidol mewn modd cyfrifol. Felly mae'r gost gyffredinol o ddarparu gwasanaethau tân ac achub wedi gostwng (er bod angen ystyried hynny ochr yn ochr â'r gostyngiad yn yr achosion a'r peryglon o dân hefyd). Fodd bynnag, ni fu cynnydd wastad mor gyflym ag y gallasai fod. Er enghraifft, mae dau o'n Hawdurdodau Tân ac Achub wedi bod yn araf iawn yn lleihau faint o achosion di-sail y maen nhw'n ymateb iddynt, sy'n llyncu adnoddau sylweddol iawn bob blwyddyn heb unrhyw fudd. Ac mae pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yn gwario llawer iawn o arian ers tro: mae'r gwariant y pen ar gyfer y tri yn y chwarterl uchaf ledled y Deyrnas Unedig, ac felly y bu hi ers peth amser.
- 1.21 Fel yn achos materion yn ymwneud ag arloesi, mae'r trefniadau presennol yn golygu bod cymhelliant grymus posibl i sicrhau gwerth am arian ar goll. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod Awdurdodau Tân ac Achub yn wastraffus; mae'n golygu nad ydym yn gwybod. Nid oes ffyrdd digonol chwaith o wirio neu herio penderfyniadau cyllidebol yr Awdurdodau Tân ac Achub. Ni waeth pa mor bwylllog neu ddarbodus y mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn dewis bod, ni all hynny barhau mewn cyfnod o bwysau sylweddol parhaus ar gyllid cyhoeddus – a fydd yn gwaethygu, mae'n siŵr, yn sgil Brexit.
- 1.22 Yn yr un modd, nid yw amrywio swyddogaeth y Gwasanaeth Tân yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ei drefniadau cyllido. Yn fwy amlwg, yn 2016/17 roedd bron iawn 20% o bob galwad ddilys yr ymatebodd y Gwasanaeth iddynt, (heb gynnwys galwadau di-sail) yn cynnwys argyfyngau meddygol nad oedd a wnelo nhw â than. Mae gwaith atal a diogelwch hefyd yn gynyddol yn ymdrin â pheryglon iechyd nad oes a wnelo nhw â than, pethau fel syrthio neu gwmpo, ysmegu a deiet gwael.
- 1.23 Nod llawer o'r gwasanaethau hyn yw lleihau'r pwysau ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, naill ai drwy leihau damweiniau a chyflyrau y byddai fel arall angen triniaeth arnynt mewn ysbyty, neu drwy ymateb i argyfyngau meddygol ar ran y Gwasanaeth Ambiwylans. Ac mae gwaith ymchwil yn dangos y gallan nhw fod yn llwyddiannus tu hwnt yn hyn o beth, gydag un astudiaeth ddiweddar yn dangos arbedion o fwy na £4 i'r Gwasanaeth Iechyd am bob £1a fuddsodwyd mewn darpariaeth Gwasanaeth Tân. Eto i gyd, mae'r model cyllidol presennol yn golygu y caiff y gwasanaethau hyn sy'n berthnasol i'r maes iechyd eu hariannu gan gyllidebau awdurdodau lleol. Mae hynny yn anghywir mewn egwyddor. Mae'n golygu nad oes gan yr Awdurdodau Tân ac Achub gyllid cynaliadwy ar gyfer gwaith o'r fath, ac nad ydyn nhw ychwaith yn atebol am yr hyn

y maen nhw'n ei wario. Felly, **mae'n rhaid i ddiwygio gynnwys natur newidiol y gwasanaeth a darparu dulliau cyllido clir, teg a chynaliadwy ar ei gyfer.**

- 1.24 Mae'r gwasanaethau brys yn wahanol i'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'n rhaid iddyn nhw wastad fod ar gael i unrhyw un sydd eu hangen, ac ni all y rhai sy'n eu darparu ragweld y galw na chwaith ei reoli drwy ddefnyddio rhestrau aros neu ryw ddulliau cyffelyb. Caiff hynny effaith sylweddol ar bennu adnoddau a chyllidebu, sy'n gorfod ymateb i'r galw mwyaf ar unrhyw adeg benodol. **Mae angen i unrhyw ddiwygio gydnabod hynny, a sicrhau y caiff y safonau gwasanaeth rhagorol yr ydym ni'n eu mwynhau eu cynnal a'u gwella.** Ond ni all hynny fod yn ddadl yn erbyn rheolaeth briodol o arian cyhoeddus. Yn wir, mae'n cryfhau'r ddadl am fodel cyllido sy'n adlewyrchu'n llwyr y pwysau ar wasanaethau tân a'r sector cyhoeddus ehangach. Credwn y dylai diwygio **greu atebolrwydd allanol gwirioneddol ar gyfer penderfyniadau gwario a chyllidebu yr Awdurdodau Tân ac Achub, gan gydnabod y nodweddion penodol o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau brys.**

Aelodaeth

- 1.25 Ar hyn o bryd, mae aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn tueddu i fod yn gynghorwyr 'meinciau cefn', sydd wedi eu henwebu i'r swyddogaeth honno gan eu hawdurdodau lleol. Mae'r cyfryw gynghorwyr yn naturiol yn chwarae rhan werthfawr yn eu hawdurdodau gan roi llais i bryderon lleol a gweithredu'r mandad etholiadol sydd ganddyn nhw. Maen nhw hefyd yn helpu i sicrhau bod y cydbwysedd sy'n rhaid i bob awdurdod lleol ei gyflawni rhwng y gwasanaethau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn adlewyrchiad teg o anghenion a barn dinasyddion a chymunedau.
- 1.26 Nid ydym yn argyhoeddedig fod swyddogaeth aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn galw am y nodweddion hyn, na'i bod yn cael ei chyflawni orau gan gynghorwyr meinciau cefn. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am un gwasanaeth yn unig, er bod hwnnw'n un sy'n newid ac yn amrywio. Mae arwain a rheoli'r gwasanaeth hwnnw yn aml yn fater technegol a chymhleth. Dim ond ar adegau prin iawn – pan fo materion fel cau gorsafoedd dan ystyriaeth – y mae materion hollol gymunedol neu wleidyddol lleol yn y fantol. Yn hytrach, mae arwain y Gwasanaeth yn effeithiol yn fater o gynnal safonau proffesiynol ac ymateb i newidiadau o ran peryglon a thechnoleg.
- 1.27 Ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ynghylch ymrwymiad ac ymroddiad personol aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod ganddynt o reidrwydd yr holl gymwyseddau angenrheidiol i roi arweinyddiaeth strategol i'r Gwasanaeth neu i herio'r prif swyddogion, yn enwedig yn ystod yr amser hwn o newid y mae'r Gwasanaeth yn ei wynebu. Mae hynny hefyd yn gofyn am arbenigedd mewn rheoli gwasanaethau, newid sefydliadol ac mewn datblygu cydberthynas â darparwyr gwasanaethau eraill. Byddai'n fuddiol hefyd petai trefniadau llywodraethu'r Awdurdodau Tân ac Achub yn fwy cydnaws a chyson â rhai'r gwasanaethau eraill hynny y mae angen iddyn nhw gydweithio â nhw.
- 1.28 Felly, credwn y **dylai diwygio gynyddu arbenigedd a gallu'r Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu arweinyddiaeth strategol, i gynnal cydweithio effeithiol ac i ddwyn uwch swyddogion i gyfrif.** Ni ddylai hynny, fodd bynnag, fod ar draul gwybodaeth ac atebolrwydd lleol.

1.29 Er bod y gwasanaethau tân ac achub yn hanfodol, maen nhw'n gymharol fach. Rhwng popeth, maent yn cyfrif am ddim ond oddeutu 1% o'r holl wariant datganoledig; ac nid oes angen i'w trefniadau llywodraethu fod yn eang nac yn gymhleth. Er enghraifft, efallai fod modd lleihau eu haelodaeth. Fel y dengys y tabl isod, mae gan yr Awdurdodau Tân ac Achub aelodaeth gymharol uchel o'u cymharu â chyrff eraill, er gwaethaf natur pur gyfyngedig eu cyfrifoldebau.

Math o fudiad	Cyllideb Refeniw	Nifer aelodau
Awdurdodau Lleol (x22)	£149 miliwn i £813 miliwn	30 i 76
Byrddau Iechyd (x7)	£285 miliwn i £1.43 biliwn	20 i 25
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	£174 miliwn	13
Cyfoeth Naturiol Cymru	£182 miliwn	11
Awdurdodau Tân ac Achub (x3)	£34 miliwn i £74 miliwn	24 i 28

1.30 Fel yr ydym ni wedi dadlau, nid yw aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cynrychioli'r etholwyr, ac nid oes ganddyn nhw fandad i'w weithredu. O'r herwydd, nid ydym yn credu bod modd cyfiawnhau'r graddau hyn o gynrychiolaeth: mae'n cynyddu cost a chymhlethdod llywodraethu heb unrhyw fudd amlwg. **Byddai'n well i aelodau'r Awdurdodau Tân ac Achub fod yn llai niferus, ond bod ganddynt gylch gwaith cliriach a'r gallu i'w weithredu.**

Rheoli perfformiad

1.31 Mae'r problemau a nodwyd uchod yn ymwneud â'r trefniadau cyllido a llywodraethu statudol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub. Ar hyn o bryd mae'r ffyrdd y mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub reoli eu perfformiad ac adrodd arno yn gwneud hynny'n waeth. Maent i'w gweld ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, sy'n ymdrin ag Awdurdodau Tân ac Achub – a'r awdurdodau Parc Cenedlaethol - yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

1.32 Yn fras, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys:

- Ffurio ac ymgynghori ar 'amcanion gwella' blynyddol, h.y. blaenoriaethau gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod;
- Casglu dada perfformiad meintiol a mathau eraill o wybodaeth sy'n dangos i ba raddau y caiff yr amcanion hynny eu cyflawni;
- Adrodd yn gyhoeddus ar ôl diwedd y flwyddyn am y cynnydd o ran cyflawni amcanion gwella; ac
